Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Llwybr i brosiect Portffolio a ariannwyd -
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

# Creu asedau cymunedol / cyfalaf cymdeithasol cynaliadwy yng nghyd-destun rhagnodi cymdeithasol: Canfyddiadau'r gweithdy a gynhaliwyd 17/07/19




Awduron:

Dr Sally Rees, Sara Thomas, Dr Carolyn Wallace a Megan Elliott

# Cynnwys


| | | Rhif Tud. |
|---|---|---|
| | **Crynodeb o'r canfyddiadau** | 2 |
| 1. | **Cyflwyniad** | 4 |
| 2. | **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: Llwybr i brosiect Datblygu Portffolio a ariennir** | 4 |
| 3. | **Methodoleg** | 5 |
| 3.1 | **Y pedwar cam** | 5 |
| 3.2 | **Cymeradwyaeth foesegol** | 6 |
| 4. | **Canlyniadau** | 6 |
| 4.1 | **Addysgu a chyfathrebu** | 7 |
| 4.2 | **Lledaenu a rhannu gwybodaeth** | 7 |
| 4.3 | **Cyn ac ar ôl gweithredu Is-adeiledd** | 7 |
| 4.4 | **Ansawdd** | 8 |
| 4.5 | **Dangos cynaliadwyedd** | 9 |
| 4.6 | **Systemau** | 9 |
| 4.7 | **Themâu allweddol** | 11 |
| 4.7.1 | **Ymglymiad cyhoeddus** | 11 |
| 4.7.2 | **Cyrchu a derbyn rhagnodi cymdeithasol** | 11 |
| 4.7.3 | **Gwirfoddolwyr** | 11 |
| 4.8 | **Egwyddorion sylfaenol** | 12 |
| 5. | **Casgliad** | 12 |
| 5.1 | **Camau nesaf** | 13 |
| 6. | **Diolchiadau** | 13 |
| 7. | **Cyfeiriadau** | 13 |
| 8. | **Atodiadau** | 13 |
| 9. | **Atodiad 1:** Agenda | 14 |
| | **Atodiad 2:** Taflen Wybodaeth am yr Astudiaeth | 15 |
| | **Atodiad 3:** Ffurflen Ganiatâd | 19 |
| | **Atodiad 4:** Cymeradwyaeth foesegol | 20 |
| | **Atodiad 5:** Tablau 'Round Robin' o ymatebion | 21 |
| | **Atodiad 6:** Model Cymru | 30 |

# Creu asedau cymunedol /cyfalaf cymdeithasol cynaliadwy yng nghyd-destun rhagnodi cymdeithasol

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Mynychodd 45 o gyfranogwyr ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr) weithdy a gynhaliwyd 17 o Orffennaf 2019 mewn lleoliad yn y gymuned (Canolfan Gymunedol Rhydyfelin, Pontypridd) i ystyried y rôl y mae'r gymuned yn ei chwarae yng nghyd-destun rhagnodi cymdeithasol. Nododd y cyfranogwyr 135 gwestiynau ymchwil /sylwadau a dynnwyd i lawr i 6 maes â blaenoriaeth drwy ddull consensws yn seiliedig ar system o bwyntiau (blaenoriaeth uchaf 6 phwynt, ail 5 pwynt, trydydd dewis, 4 pwynt ac yn y blaen):

### 1. Addysgu a Chyfathrebu (154.5 pwynt)

Roedd yn bwysig i gyfleu neges glir a chyson i Feddygon Teulu, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ac arweinyddion cymunedol am fodolaeth a buddion allweddol rhagnodi cymdeithasol. Roedd angen i ddinasyddion wybod bod gweithgareddau cymunedol amgen ar gael yn y gymuned i'w cynorthwyo yn hytrach na dibynnu ar ymyriad meddygol. Roedd angen gwell ddealltwriaeth. Roedd angen gwell mecanweithiau cyfathrebu rhwng sefydliadau a sectorau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan gynnig hyfforddiant mewn rhagnodi cymdeithasol a rhaglen o addysg gyhoeddus.

### 2. Lledaenu a rhannu gwybodaeth (143.5)

Mae angen diweddaru'r cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'i rannu'n ehangach ac i fod ar gael i ddinasyddion, ond mae'r modd y mae hynny'n digwydd yn amrywio. Mae angen i wybodaeth gyhoeddus ar Ragnodi Cymdeithasol ar gael yn rhwydd; sut i'w gyrchu a'r hyn sydd i'w ddisgwyl

### 3. Cyn ac ar ôl gweithredu is-adeiledd (127.5 pwynt)

Roedd angen sefydlu mecanwaith ar gyfer cynllunio a chomisiynu rhagnodi cymdeithasol a chreu is-adeiledd effeithiol i gynorthwyo hyn. Mae hyn yn ddibynnol ar sicrhau bod systemau cadarn a thrylwyr yn bodoli ac ymglymiad llawn pobl sy'n elwa o Ragnodi Cymdeithasol a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth.

### 4. Ansawdd (126 pwynt)

Soniwyd am Ansawdd ar nifer o lefelau a'r ffaith y dylai sicrhau ansawdd fod yn gymesur, ond mai diogelu'r unigolyn oedd bwysicaf. Felly, roedd angen i weithgareddau sefydliadau gwirfoddol a chymunedol fod yn ddiogel, cyson a dibynadwy ac yn glir o ran y modd y delir â llesiant pobl yn seiliedig ar sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig'. Roedd adnoddau cytûn i fesur a gwerthuso yn ganolog i ddeall yr hyn sy'n gweithio i bobl sy'n cyrchu rhagnodi cymdeithasol.

5. **Dangos cynaliadwyedd (123 pwynt)**

Yr hyn oedd yn hanfodol i lwyddiant rhagnodi cymdeithasol oedd cael asedau amrywiol, hyfyw a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae asedau cymunedau yn fregus oherwydd trefniadau cyllido’r sector cyhoeddus a’r gystadleuaeth o fewn y sector gwirfoddol/cymunedol am gyllid. Y prawf ar gyfer sefydliad gwirfoddol a chymunedol ydy a allan nhw gynnig tystiolaeth gadarn i gynnal eu hasedau pan fydd ffocws cyllidwyr mwy ar ddata meintiol yn hytrach nag ar ddata ansoddol. Mae cynnal asedau cymunedol /cyfalaf cymdeithasol yn gofyn am gyllido cynaliadwy ac ar yr un pryd cynnal rhagnodi cymdeithasol drwy gyllido cylchol.

6. **Systemau (121.5 pwynt)**

Roedd rhwystrau pwysig iawn yn bodoli yn y system, rhwystrau oedd yn heriol gyda'r potensial o lesteirio twf rhagnodi cymdeithasol ond hefyd gellid cyfeirio at dwf a chynnal asedau cymunedol pobl. Mae angen i brosesau comisiynau a chaffael fod yn dryloyw, yn dosturiol ac yn ymatebol i ragnodi cymdeithasol a chomisiynu gweithgareddau cymunedol. Byddai proses gomisiynu gymesur yn caniatáu sefydliadau a grwpiau cymunedol llai fynediad tecach a mwy cydradd i gyllid ynghyd â sefydliadau heb fod er elw mwy o ran eu maint.

7. **Ffactorau eraill**

Mae angen i’r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol wybod am ragnodi cymdeithasol i wella ymglymiad a’r nifer y rhai sy’n ei dderbyn. Mae problemau mynediad y mae angen mynd i’r afael â nhw megis gweithgareddau agos at adre ac is-adeiledd cludiant, yn enwedig yng Nghymunedau’r Cymoedd. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig yn y broses i gyflenwi a chynorthwyo pobl i gyrchu asedau cymunedol lleol. Mae agwedd gymdeithasol wirfoddol fel dewis o ragnodi cymdeithasol, yn codi hyder a chael pobl i ymglymu yn y gymuned, gyda rôl ddeuol mewn gwella llesiant.

# 1. Cyflwyniad

Yn gynyddol, cydnabyddir bod rhagnodi cymdeithasol fel cysyniad yn cael ei gynnig fel dewis amgen heb fod yn glinigol ar gyfer pobl gydag anghenion seico-gymdeithasol cymhleth. Fodd bynnag, mae angen adeiladu sail tystiolaeth gritigol (Bickerdicke et al., 2017), ar effeithioldeb rhagnodi cymdeithasol yn erbyn modelau gwahanol. Yn gyfredol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a sefydliadau'r sector gwirfoddol a gofal sylfaenol yng Nghymru yn bennaf sy'n hwyluso rhagnodi cymdeithasol. Er nad oes diffiniad cyffredinol o ragnodi chymdeithasol yn bodoli yn y bôn, gellir atgyfeirio unigolyn drwy nifer o lwybrau i ragnodwr cymdeithasol, i weithiwr cyswllt neu weithiwr mewn maes tebyg drwy eu:

- Meddyg Teulu neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd
- gweithiwr cymdeithasol, er enghraifft, neu
- mewn rhai achosion, drwy hunan-gyfeirio at sefydliad sector gwirfoddol neu ased cymunedol am wasanaethau a gweithgareddau gofal a chymorth i reoli eu hanghenion gofal iechyd a llesiant yn well.

Yn Nghwm Taf Morgannwg (ardaloedd Awdurdod Lleol Rhondda, Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr), mae amrywiaeth y modelau yn atgynhyrchu profiad Cymru gyfan i weithgaredd rhagnodi cymdeithasol, sy'n gofyn i'r GIG, Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol fod yn cydweithio er budd y cyhoedd er mwyn cynnig rhagnodi cymdeithasol. Ar hyn o bryd, yn seiliedig ar lenyddiaeth fwy diweddar (Husk et al., 2019; Bickerdicke et al., 2017; Lovell et al., 2017) a chanfyddiadau o ddigwyddiad agoriadol (Mai, 2018), mae angen i ddeall sut, pryd, pam ac ym mha amgylchiadau mae rhagnodi cymdeithasol yn gweithio a pha asedau cymunedol/cyfalaf cymdeithasol sydd o gymorth, sydd ar gael ac angen eu datblygu neu eu cynnal i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl.

# 2. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Llwybr i Ddatblygu Portffolio prosiect a gyllidir

Dyfarnwyd £20,000 rhwng Ebrill a Medi 2019 i Lwybr Cronfa Datblygu Portffolio (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru) i ddatblygu prosiect/gweithgaredd yng nghyd-destun rhagnodi Cymdeithasol ac wedi'i seilio ar flaenoriaethau a themâu ymchwil a nodwyd gan y WSPRN ac ar draws Cwm Taf Morgannwg. Dyfarnwyd cyllid y prosiect i Dr Carolyn Wallace (Athro Cyswllt, Prifysgol De Cymru) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg drwy ei chontract mygedol, gyda Dr Sally Rees (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – CGGC) a ddarparodd fewnbwn ymchwilydd. Arweinir y prosiect o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gan Sara Thomas (Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol). Y nod oedd i ystyried rhagnodi cymdeithasol ar draws Cwm Taf Morgannwg ac i ddatblygu mewn partneriaeth o leiaf un cais am grant mawr ac 1-2 gais am grantiau llai yn seiliedig ar ganlyniadau 'r prosiect.

Nododd digwyddiad consensws WSPRN (Mai 2018), drwy broses o drafodaeth, diffinio a phleidleisio, yr wyth blaenoriaeth ymchwil uchaf a'r pwysicaf oedd ***Pa systemau allai gynnal asedau cymunedol? Sut g allwn ni ei wneud (rhagnodi cymdeithasol) yn gynaliadwy?*** Ar y sail hwnnw, trefnwyd digwyddiad consensws ar ffurf gweithdy er mwyn ystyried agweddau a chwestiynau i gytuno i ***Greu cyfalaf cynaliadwy/ffeirio ased cymunedol mewn rhagnodi cymdeithasol?*** ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

# 3. Methodoleg

Roedd y digwyddiad consensws yn cynnwys gweithdy yn seiliedig ar Dechneg y Grŵp Nominal (Delbecq and Van de Ven, 1971) a'i ddatblygu ymhellach gan Kenkre et al. (2015) a gwahoddwyd grŵp o ymarferwyr, comisiynydd, rhagnodwyr cymdeithasol ac unigolion â diddordeb mewn rhagnodi cymdeithasol, i ddod ynghyd; a'r rhain yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ac academyddion i rannu eu profiadau i greu eu meysydd â blaenoriaeth pwysicaf. Derbyniodd cyfranogwyr yr agenda ar gyfer y digwyddiad (Atodiad 1) a thaflen wybodaeth yr astudiaeth (Atodiad 2) cyn mynychu ac ar ôl cyrraedd gofynnwyd iddyn nhw gwblhau ffurflen ganiatâd (Atodiad 3). Roedd y dull hwn yn cynnig cyfle i gynhyrchu nifer o syniadau amrywiol, yn cynnig cyfle i bawb gyfranogi gan ddefnyddio egwyddorion a gyd-gynhyrchwyd a chreu'r amodau i fod yn gadarnhaol ac i ddatrys problemau drwy broses ar gyfer blaenoriaethu. Yn yr achos hwn, y cwestiynau ymchwil a cheisiadau am grant oedd y materion i'w symud yn eu blaen yng Nghwm Taf Morgannwg o ran rhagnodi cymdeithasol. Cyflawnwyd hyn drwy drafodaeth actif a thrafodaeth ddemocrataidd gan ddefnyddio dull pedwar cam, dan arweiniad Dr Carolyn Wallace, a weithredai fel cymedrolwr. Cyn y trafodion cyflwynodd Sara Thomas y cyd-destun rhagnodi cymdeithasol yng Nghwm Taf Morgannwg, gyda Dr Sally Rees yn darparu'r cefndir a manylion y prosiect ymchwil.





### 3.1 Y pedwar cam

**Cam Un:** Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried eu tri chwestiwn ymchwil unigol, trafod a rhannu ar sail y cwestiwn ymchwil a ofynnwyd.

**Cam 2**: Cyfres o 'Round Robins' i gofnodi'r cwestiynau ymchwil drwy gynyddu maint y grwpiau yn gynyddrannol wrth i'r rowndiau fynd yn eu blaen. Cofnodwyd pob rownd ar bapur codau lliw.

**Cam 3**: Trafodaeth ar y cwestiynau ymchwil a'u torri i lawr i nifer hydrin a realistig ar sail y nifer y cyfranogwyr a gyfrannodd eu tri chwestiwn ymchwil.

**Cam 4:** Graddiodd pob cyfranogwyr y tri chwestiwn neu ffocws ymchwil uchaf i symud un cynnig am grant mawr yn ei flaen ac i ddatblygu 1-2 gais llai eu maint ar gyfer cyllid ymchwil. Graddiwyd y blaenoriaethau gan ddefnyddio system bwyntiau (blaenoriaeth uchaf 6 phwynt, ail o ran blaenoriaeth 5 pwynt ac felly ymlaen).





### 3.2 Cymeradwyaeth foesegol (Atodiad 4)

Derbyniodd yr astudiaeth hon gymeradwyaeth foesegol gan Ysgolion Iechyd, Chwaraeon ac Ymarfer Proffesiynol ac Is Grŵp Moeseg Ymchwil Gwyddorau Gofal, Prifysgol De Cymru ar 12/07/19 (Cyfeirnod: 19CW0702LR). Mae'r gymeradwyaeth yn ddilys am ddwy flynedd o ddyddiad ei gyhoeddi a chyflwyno adroddiad ar ôl gorffen i'r Is Grŵp.

## 4. Canlyniadau

Cynhaliwyd y gweithdy 17 Gorffennaf 2019 mewn lleoliad lleol (Canolfan Gymunedol Rhydyfelin Pontypridd) sydd newydd ei drosglwyddo i'r gymuned. Cymerwyd rhan gan **45** o gyfranogwyr ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd yn cynrychioli 'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol a phreifat, ar draws disgyblaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu feysydd cysylltiol. Seilir y canfyddiadau, a ddadansoddwyd â llaw a gyda chodau lliw fesul maes â blaenoriaeth ar y dull pedwar cam o fynd ati, ac ar y cychwyn nodwyd **135** o gwestiynau/sylwadau ymchwil unigol (Atodiad 5, Tabl 1.) a gorffen gyda thrafodaeth yn y grŵp mawr (y cam terfynol) i ddod i gytundeb am y 3 blaenoriaeth uchaf. Fodd bynnag, roedd consensws y dylid mynd â'r 6 blaenoriaeth y cytunwyd arnyn nhw yn y rownd flaenorol (Atodiad 5, Tabl 5 'Papur Gwyn': 2 grŵp mawr) i'r cam nesaf a bwrw pleidlais yn ddienw yn nhrefn eu blaenoriaeth. Roedd rhai o'r farn nad oedd y chwe terfynol yn llwyr berthnasol nac yn adlewyrchu sgyrsiau cynharach am gyllido cynaliadwy fel blaenoriaeth a bod angen amnewid y cyllid o un flwyddyn i'r llall a hynny'n rhoi hirhoedledd i brosiect neu wasanaeth. Dadansoddwyd yr holl wybodaeth a gofnodwyd ar draws cyfres o 'round robins' yn ystod Cam Dau ynghyd â'r ymatebion unigol (3 chwestiwn/sylw ymchwil) a gasglwyd o Gam Un i liniaru unrhyw golli gwybodaeth a dehongliad ac i nodi themâu o fewn a thu allan i'r chwe maes ymchwil uchaf eu blaenoriaeth.

**Trefn blaenoriaethau ymchwil terfynol:**

1. **Addysgu a chyfathrebu (154.5 pwynt)**
2. **Lledaenu a rhannu gwybodaeth (143.5 pwynt)**
3. **Is-adeiledd cyn ac ar ôl gweithredu (127.5 pwynt)**
4. **Ansawdd (126 pwynt)**
5. **Dangos cynaliadwyedd (123 pwynt)**
6. **Systemau (121.5 pwnt)**



## 4.1 Addysgu a chyfathrebu

Roedd cyfathrebu â Meddygon Teulu, gweithwyr proffesiynol maes gofal iechyd eraill ac arweinyddion cymunedol am fodolaeth cymdeithasol a'i fanteision allweddol yn rhan bwysig o sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol bod dewisiadau eraill ar gael ar wahân i ymyriad meddygol neu ofal cymdeithasol ab od yr ymwybyddiaeth yn gallu golygu atgyfeirio i ragnodi cymdeithasol. Yn hanfodol i gynyddu cyfraddau atgyfeirio oedd yr angen am y canlynol:

- Cael gwell ddealltwriaeth o ba fath o wybodaeth sydd angen ei gyfleu i'r cyhoedd; yr hyn sydd ar gael a'r hyn ddylai'r cyhoedd ddisgwyl.
- Ar ôl i unigolyn gael ei g/chyfeirio, mae mecanweithiau adborth ar gael i sefydliadau riportio profiad yr unigolyn drwy astudiaethau achos, nodi arferion da a'r sialensiau a'r problemau.
- Dylai hyfforddiant mewn rhagnodi cymdeithasol fod ar gael a rhaglen i addysgu'r cyhoedd, ynghyd â
- sefydlu mecanweithiau cyfathrebu gwell rhwng sefydliadau a sectorau ar draws y rhanbarth.

## 4.2 Lledaenu a rhannu gwybodaeth

Gyrrwr allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ydy bod gan awdurdodau lleol a phartneriaid ddyletswydd i ddatblygu cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) o'r hyn sydd ar gael i ddinasyddion yn eu cymuned leol i ddiwallu eu hanghenion gofal, cymorth a llesiant. Mae pa mor dda y bydd y cynnig yn cael ei sylweddoli a'i gyfathrebu yn amrywio, gyda rhwystrau yn y system yn llesteirio gwelliannau yn y dull mae cynnig GCC yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd.

Mae cyfathrebu da yn ganolog i ledaenu a rhannu gwybodaeth wrth addysgu'r cyhoedd am ragnodi cymdeithasol. Teimlwyd bod angen y canlynol:

- Iaith a rennir ar draws sectorau.
- Rhannu data yn well ar draws y sectorau am yr hyn sy'n gweithio'n dda/ddim yn gweithio'n dda a'r hyn sydd angen newid er mwyn sicrhau bod asedau cymunedol yn gynaliadwy, gan dynnu'r dysgu o hybiau cymunedol er enghraifft.
- Bod gan Feddygon Teulu sylfaen data cyfredol y gallan nhw ei gyrchu ar gyfer cleifion at ddiben rhagnodi cymdeithasol.
- Mwy o ddefnydd gweithredol o dechnoleg i ledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o Ragnodi Cymdeithasol yn y gymuned.

## 4.3 Is-adeiledd cyn / ar ôl gweithredu

Roedd angen sefydlu mecanwaith ar gyfer cynllunio a chomisiynu rhagnodi cymdeithasol a chreu is-adeiledd ymarferol i gynorthwyo hyn. Mae hyn yn dibynnu ar gael systemau cadarn ac ymglymiad llwyr pobl sy'n elwa o ragnodi cymdeithasol a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth. Mae hyn yn golygu cydweithio er mwyn craffu ar yr is-adeiledd, ei archwilio a'i herio, ond mae angen ffocysu mwy ar *'fodelau di-ddiffygion, gan dynnu ar ddatblygiad organig grwpiau'* wedi'u cydbwyso yn erbyn y *'syniadau o "angen" a chymhlethdodau strwythur cadarn'.*

## 4.4 Ansawdd

Roedd yn nodedig drwy gydol y 'round robins' y dylid annog cyd-gynhyrchu i fod ynghanol rhagnodi cymdeithasol; cynorthwyo pobl a sefydliadau i nodi'r asedau priodol, darparu cymorth ar yr adeg briodol a'r lefel briodol, yn ymgorffori safon cytûn o gymorth a sicrhau ansawdd. Nodwyd y syniad o ansawdd ar sawl lefel ac y dylai sicrhau ansawdd fod yn gymesur ond mai diogelu'r unigolyn oedd bwysicaf. Felly, roedd angen i sefydliadau gwirfoddol a gweithgareddau cymunedol fod yn ddiogel, cyson a dibynadwy ac yn glir o ran mynd i'r afael â llesiant pobl yn seiliedig ar sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. O safbwynt ansawdd, mae angen sicrhau dyletswydd i ofalu am bobl; bod angen i ddiogelu a pholisïau tryloyw sy'n hyrwyddo llywodraethu, hyfforddiant, datblygiad da ac ymwybyddiaeth dda o gymorth fod yn eu lle, ond gallai hynny fod yn broblem i weithgareddau cymunedol mwy anffurfiol. Mae darparu ystod o weithgareddau o ansawdd sy'n siwtio pawb, yn cynnig *'digon o ddewis i fodloni buddiannau'r mwyafrif'*, tra'n meddu ar y gallu i gynnig cymorth neu becynnau penodol o gymorth wedi'u teilwra i anghenion unigolion, yn her i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol llai eu maint. Fodd bynnag, gall sefydliadau fel hyn ymateb i anghenion lleol ac yn aml, yn deall yn well yr hyn sydd ei angen ar eu cymunedau, ond mae'r adnoddau i wneud hynny yn llesteirio datblygiad. Y nod y dylid anelu ato ydy cynnig gwasanaethau uchel eu hansawdd y mae pawb yn gwybod amdanyn nhw ac yn ymglymu pobl, y defnyddwyr gwasanaeth, yn y cynllun a'i ddatblygiad.

Yn sylfaenol rhaid cytuno ar yr hyn sydd angen ei gynnig i ddiwallu agenda rhagnodi cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cleient yn cael y daith orau posibl heb gyfeirio mynych neu gylchol at weithgareddau sydd ddim yn diwallu eu hanghenion penodol. Er mwyn i feddygon teulu 'brynu i mewn' i ragnodi cymdeithasol, mae angen iddyn nhw fod yn hyderus pan fyddan nhw'n cyfeirio claf at weithgaredd neu sefydliad gwirfoddol neu gymunedol bod ansawdd y ddarpariaeth yn gadarn, diogel a moesegol.

Mae angen methodoleg cytûn a chadarn ar gyfer gwerthuso effaith ac ansawdd rhagnodi cymdeithasol. Nododd cyfranogwyr y dylai gynnwys y canlynol:

- Gwerthuso effaith profiad unigolyn o'r rhagnodi cymdeithasol a'r asedau cymunedol y maen nhw wedi'u cyrchu a'r system ei hun.
- Cysylltiad yr unigolyn gyda'r rhagnodwr cymdeithasol; y modd y maen nhw wedi cael eu cynorthwyo.
- Profiad rhagnodwyr cymdeithasol; eu sgiliau, gwybodaeth a'u hanghenion hyfforddiant.
- Rôl a phrofiad sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n cynorthwyo pobl drwy atgyfeiriad rhagnodi cymdeithasol.

Teimlwyd bod rhaid i hyfforddiant rhagnodwyr cymdeithasol fod o ansawdd uchel; bod prosiectau rhagnodi cymdeithasol yn gallu:

- denu'r bobl briodol yn meddu ar y sgiliau priodol i mewn i'r rôl,
- cynnal y rolau hynny, a bod

- y rhagnodwyr cymdeithasol yn deall yr asedau cymunedol sydd ar gael i gyfeirio atyn nhw ond hefyd yn gallu nodi'r bylchau a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r bylchau hynny yn y ddarpariaeth gymunedol.

### 4.5 Dangos cynaliadwyedd

Yn allweddol i lwyddiant rhagnodi cymdeithasol ydy argaeledd asedau cymunedol bywiog, hygyrch a chynaliadwy. Ond er cyfoethoced ac amrywiaeth yr asedau cymunedol/y cyfalaf cymdeithasol, maen nhw'n fregus oherwydd trefniadau cyllido'r sector cyhoeddus a'r gystadleuaeth o du'r sector gwirfoddol / cymunedol am arian, yn cynnwys gan gyrff ac ymddiriedolaethau sy'n cynnig grantiau. Y sialens nawr ydy sut gall sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gynnig a chyflwyno tystiolaeth gadarn i gynnal eu hasedau pan fydd ffocws cyllidwyr ar ddata meintiol yn hytrach nag ar ddata ansoddol. Ni ddylai'r monitro fod ar sail ystadegau yn unig ond dylai ffocysu ar ansawdd, profiad pobl a'u cyd-ganlyniadau. Dylai comisiynwyr ail-ystyried gofyn am wybodaeth o fonitro data ansoddol yn hytrach nag o ddata meintiol er mwyn deall y *'rhwystrau sy'n gysylltiedig â phroblemau, anableddau a thlodi pobl'* a defnyddio gwybodaeth i greu amodau i wella pethau drwy gyrchu rhagnodi cymdeithasol fel opsiwn i fynd i'r afael â materion megis unigrwydd, ynysigrwydd cymdeithasol a iechyd meddwl.

Er mwyn creu asedau cymunedol /cyfalaf cymdeithasol cynaliadwy mae angen cyllido cynaliadwy, ac ar yr un pryd cynnal rhagnodi cymdeithasol drwy gyllid cylchol. Mae'n anodd sicrhau cyllid hirdymor yng nghyd-destun ariannu swyddi tymor byr (1-3 blynedd), sydd ddim yn cynorthwyo hirhoedledd o'r hyn sy'n gweithio nac yn cynnig y cyfle i gynllunio, datblygu, mireinio na newid yn effeithiol. Mae hyn mewn cyfnod o doriadau mewn cyllido cyhoeddus a chyni sy'n dal i effeithio ar sut ac os y cyllidir asedau cymunedol/cyfalaf 'cymdeithasol yr hirdymor neu'r tymor. Mae diffyg cyfle cyfartal i gyrchu cyllid a diffyg cydweithredu i geisio datblygu a chynllunio gofal a gwasanaethau cymorth i ddiwallu'r angen. Bydd buddsoddi yn y gymuned yn annog y defnydd a gwella gwytnwch unigolion a'r gymuned. Fodd bynnag, mae angen newid yn y dull y mae'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol yn cael eu cyllido yn ogystal â rhagnodio cymdeithasol. Seilir y mwyafrif o fodelau rhagnodi cymdeithasol ar brosiectau a does gan sefydliadau gwirfoddol llai eu maint a grwpiau anffurfiol *'yn gyffredinol mo'r adnoddau i barhau i gynnal prosiect ac maen nhw mewn perygl tra'n aros am gadarnhad am y cyllido*.

Nodir y cytundeb ar yr adnoddau i fesur profiad unigolion a system gynaliadwy ar gyfer sicrhau cysondeb yn y gwerthuso. Mae prosiectau rhagnodi cymdeithasol cyfredol i sicrhau sylfaen ond yn cydnabod bod 'syniadau sy'n anghyson â'i gilydd am 'yr hyn sy'n bwysig' ac mae sawl gwahanol fathau o asedau cymdeithasol' a *'gwahanol lwybrau/teithiau i sicrhau cynaliadwyedd'*.

### 4.6 Systemau

Teimlwyd bod rhwystrau systematig yn unig i gynnal rhagnodi cymdeithasol ond hefyd i'r asedau cymunedol y cyfeirir pobl atyn nhw ac i'r broses o drosglwyddo asedau (e.e. trosglwyddo adeilad awdurdod lleol i'r gymuned). Roedd rhwystrau yn bodoli o gwmpas y broses gomisiynu oedd yn gymhleth a biwrocrataidd. Roedd galw am system symlach fel na fyddai sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol dan anfantais. Y rheswm dros hyn oedd materion galluedd a bylchau mewn sgiliau i ymateb i'r gais am gyllido yn y sector

cyhoeddus. Fodd bynnag, mae parhad y cyllid sy'n galluogi cynllunio hirdymor a dibynadwyedd yn digwydd ar adeg pan geir gostyngiad yng cyllid awdurdodau lleol a byrddau iechyd oherwydd cyni ac mae hynny yn wedi yn ei gwneud hi'n anodd ac yn heriol i fynd i'r afael ag amodau cyllid byrdymor cyfredol. Doedd sefydliadau llai eu maint neu grwpiau cymunedol anffurfiol ddim yn ymwybodol o sut i gynnig modelau cynaliadwyedd amgen heb wybod at bwy i droi na'r systemau i wneud hynny. Mae gan grwpiau cymunedol/cymdogaeth llai eu maint systemau anffurfiol sydd yn aml yn arwain i fod yn rhai 'ar fympwy' a 'thros dro' ac anghynaliadwy. Yn ystod yr ail sesiwn 'round robin' (y 'papur pinc') y teimlad oedd bod angen deall sut i sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau system er mwyn diogelu pobl a rhoi cyfle cychwynnol i grwpiau anffurfiol llai eu maint i gyrchu cyllid, drwy beidio â chyfyngu eu gallu drwy eu gorfodi i ddefnyddio prosesau ffurfiol sy'n llesteirio eu datblygiad.

Mae angen i brosesau comisiynu fod yn deg, tryloyw, trugarog, cymesur ac ymatebol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yn ogystal â chomisiynu gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol sy'n cynnig gwerth cymdeithasol i unigolion a chymunedau. Fodd bynnag, mae angen i'r berthynas rhwng unigolion, sefydliadau a sectorau groesawu a deall bod rhaid i'r grym o leisio barn mewn perthynas fod yn gyfartal ac yn gyfatebol drwy gydol prosesau comisiynu. Yn yr un modd, drwy gyd-gynhyrchu mae rhaid i'r newid hinsawdd sydd ei angen i gynhyrchu syniadau ac ymarfer arloesol ystyried esblygiad rhagnodi cymdeithasol gyda dinasyddion yn gyd-gynhyrchwyr gweithredol. Mae angen hyblygrwydd, llyfnder a chymorth ar draws y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol ac mae hyn yn hanfodol wrth:

- Archwilio arferion da er mwyn *'sicrhau hyder yn y system*,
- mapio asedau cymunedol, yn cynnwys nodi lleoliadau yn y gymuned i fod yn gyfredol â *'natur amrywiol, deinamig y sector gwirfoddol a chymunedol'* ac i fynd i'r afael â dyblygu darpariaeth,
- nodi'r bylchau a'r modd y gellid mynd i'r afael â'r bylchau hynny drwy gomisiynu rhagweithiol a chefnogol,
- meddu ar gyd-weledigaeth o'r hyn ydy partneriaethau da;
- un weledigaeth ar gyfer system gyd-gynhyrchu sydd, ar hyn o bryd, yn dameidiog a rhanedig ac sy'n anodd ei datblygu, ei rheoli a'i hasesu. Teimlwyd y dylai hyn fod yn gyfarwyddyd gan gorff awdurdodol (Llywodraeth Cymru neu Fyrddau Iechyd Lleol) i'w gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau bod pawb yn gweithio i'r un perwyl, gyda
- mwy o ffocws ar *'fodelau di-ddiffygion, yn tynnu ar ddatblygiad organig grwpiau' o'u cyferbynnu â'r 'syniadau am yr angen a chymhlethdodau strwythur cadarn'*.

Mae angen i unigolyn ac unrhyw un sy'n cefnogi, megis meddyg teulu, wybod sut mae'r system yn gweithio o safbwynt rhagnodi cymdeithasol; sut i'w defnyddio, yr hyn i'w ddisgwyl a chynnig gweithgaredd, unwaith yr atgyfeirir nhw. Teimlai nifer o gyfranogwyr bod angen system haws i'w chyrchu, er enghraifft cyfleoedd am weithgaredd corfforol e.e

Atgyfeiriad syml at gynlluniau cyfeirio megis y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a dull mwy parhaus o fynd ati i gyfathrebu a gwella'r Wybodaeth, y Cyngor a'r cynnig o Gymorth a allai ddigwydd ar lefelau gwahanol.

## 4.7 Themâu allweddol

### 4.7.1 Ymglymiad y cyhoedd

Mae neges gyson i'r cyhoedd ond hefyd i weithwyr proffesiynol am rôl a manteision rhagnodi cymdeithasol yn ofyniad hanfodol; hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol mewn modd sy'n ysgogi ymglymiad pobl sydd ddim yn ymgysylltu â gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

### 4.7.2 Cyrchu a derbyn rhagnodi cymdeithasol

Mae angen i'r cyhoedd wybod yn y lle cyntaf am ragnodi cymdeithasol, yn yr ail le, deall manteision a rôl y gall asedau cymunedau lleol ei chwarae i wella canlyniadau llesiant ac yn drydydd, cytuno i gael eu hatgyfeirio neu hunan-gyfeirio a derbyn cynnig o ragnodi cymdeithasol. Os bydd unigolion wedi hunan-gyfeirio, mae angen iddyn nhw wybod y rheswm pam, a bydd hyn yn ei dro, yn help i annog eraill i gyrchu rhagnodi cymdeithasol. Mae angen rhagor o gymorth ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth ac â nodweddion a warchodir a *'gafael llaw'* er mwyn eu cynorthwyo a'u harwain lle bo'n briodol.

Mae problemau cyrchu sy'n debygol o gyfrannau at y nifer sy'n derbyn ragnodi cymdeithasol:

- Cymunedau ynysig ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg oherwydd diffyg cludiant cyhoeddus neu gludiant gwael ar draws ac i lawr y Cymoedd.
- Tlodi ariannol yn rhwystr.
- Problemau amser, i'r unigolyn pan fo mae amser cynnal y gweithgareddau yn anghyson â'r pwysau cartref a gwaith a hynny'n eu rhwystro rhag cymryd rhan, yn cynnwys y mannau gwyrdd a'r hyn sydd ar gael yn lleol.

Awgrymwyd y byddai datblygu carfan y gellid ymddiriedi ynddi o 'hyrwyddwyr cymunedol' i weithio mewn cymunedau lleol a'i rôl fyddai annog hunan-atgyfeirio i ragnodi cymdeithasol; modelu drwy enghraifft y manteision allweddol ac annog y gymuned, yn cynnwys pobl ifanc i ymglymu a chymryd rhan.

### 4.7.3 Gwirfoddolwyr

Yn ganolog i gynnig a llwyddiant cymdeithasol y mae argaeledd asedau cymunedol a allai dibynnu ar wirfoddolwyr i gynorthwyo a chyflenwi. Er na ddylid gor-dibynnu ar wirfoddolwyr, mae ganddyn nhw rôl i yrru newid a chynorthwyo cynaliadwyedd. Mae agwedd gymdeithasol gwirfoddol fel rhagnodi cymdeithasol, yn codi hyder, datblygu sgiliau ac yn cael pobl i ymglymu yn y gymdeithas a chael rôl ddeuol i wella llesiant.

### 4.8 Egwyddorion sylfaenol

Rhagdybiaeth rhagnodi cymdeithasol ydy bod rhaid cael amodau arbennig. Yn gyson drwy'r cam 'round robin', mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn helpu tuag at datblygu modelau ffyniannus a'r modd i ddatblygu fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny:

**Egwyddorion allweddol:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | **Cydgysylltu** | **Cydweithredu** | **Cydlyniant** | **Cysondeb** |
| **Cyd-gynhyrchu** | **Cysylltu** | **Hyder** | **Parhad** | **Datblygiad Cymunedol** |

## 5. Casgliad

Gweithiodd y methodoleg gyd-gynhyrchu a ddefnyddiwyd i gael consenswS ar y meysydd uchaf eu blaenoriaeth yn dda, gan roi cyfle i'r holl gyfranogwyr i rannu eu profiadau. Er bod y meysydd â blaenoriaeth wedi'u graddio, maen nhw'n gyd-gysylltiedig ac yn dibynnu ar ei gilydd. Yn unfryd, mynegwyd profiadau tebyg ac awgrymiadau o wahanol safbwyntiau. Sylweddolon nhw bwysigrwydd sefydlu perthynas rhwng sectorau ac ar eu traws ac ar lefelau gwahanol, fel na waherddir y ddarpariaeth leol anffurfiol o ran gweithgaredd Rhagnodi Cymdeithasol ar gyfer aelodau eu cymuned. Mae'n bwysig bod asedau cymunedol yn addas a phriodol, yn iawn i'r gymuned yn ôl yr hyn a nodwyd a phenderfynwyd gan y gymuned, yn hytrach na bod yr asedau hynny yn cael eu gosod oherwydd diffyg ymglymiad cymuned. Fodd bynnag, mae angen cymorth ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd cyrchu'r gwasanaethau yn y lle cyntaf. Mae meddygon teulu, er enghraifft yn bwynt mynediad hanfodol ar gyfer pobl sy'n annhebygol o hunan-atgyfeirio. Er y nodwyd y byddai bas data y gallai Meddygon Teulu ei ddefnyddio ar gyfer rhagnodi cymdeithasol cleifion o help, mae DEWIS ac Infoengine eisoes yn bodoli i ddod o hyd i wasanaethau yn y gymuned, ond efallai nad yw gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn ymwybodol o'r peiriannau ymchwil hynny a allai helpu cleifion i gyrchu ymyriadau anfeddygol.

Dylai cynaliadwyedd a datblygiad rhagnodi cymdeithasol cyffredinol gael eu harwain gan farn y rhai hynny sydd yn neu'n debygol o elwa mewn perthynas cyd-gynhyrchiol ar draws pob grŵp rhanddeiliaid perthnasol; mai ystyr cynnal rhagnodi cymdeithasol ydy:

**Dangos cynaliadwyedd + Sicrhau cynaliadwyedd = Comisiynu + Cyllido hirdymor = Rhagnodi Cymdeithasol ac asedau cymunedol cynaliadwy**

Gwerth ddylai fod yn sail i gyd-gynhyrchu a dylai egwyddorion cyd-gynhyrchu ac ymglymu fod yn rhan o ragnodi cymdeithasol, yn cynnwys y modd y caiff ei werthuso drwy set cytûn o safonau ansawdd. Bydd hyn yn cynnig llwyfan credadwy ar gyfer cynaliadwyedd a werth cymdeithasol o ragnodi cymdeithasol.

I orffen, mae model rhagnodi cymdeithasol Cymru (Ver. A & B - Atodiad 6), a ddatblygwyd o fodel cychwynnol (Thomas, 2018) a'i rannu gyda chyfranogwyr, yn cynnig sail i ystyried y model ymhellach a'r hyn sy'n gwneud rhagnodi cymdeithasol yn y bôn yn wahanol yng Nghymru.

### 5.1 y camau nesaf

Allbwn Llwybr i Bortffolio ydy enwi darpar gyllidwyr grant er mwy datblygu un cynnig ymchwil mawr ac o leiaf un llai ei faint gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'r gweithdy. Y bwriad ydy sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r cynigion. Yn y gweithdy ac wedi hynny mae unigolion eisoes wedi nodi eu bod yn dymuno cyfrannu ac i ddatblygu model Cymru ymhellach.

## 6. Diolchiadau

Hoffai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddiolch i bawb a fynychodd y gweithdy ar 17 Gorffennaf 2019. Bydd eich cyfraniadau yn werthfawr i symud rhagnodi cymdeithasol yn ei flaen ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Hoffen ni hefyd ddiolch i'n cyllidwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am gynorthwyo'r prosiect hwn drwy Gronfa Ddatblygu Llwybr i Bortffolio.

## 7. Cyfeiriadau

Bickerdike, L., Booth, A., Wilson PM., Farley, K. a Wright, K. (2017) Social prescribing: less rhetoric and more reality. A systematic review of evidence. *BMJ Open*. 7, 4, 1-17.

Delbecq, A. a Van de Ven, A. (1971) A Group Process Model for Problem Identification and Programme Planning. *Journal of Applied Behavioural Science*. 7, 4 466-492.

Husk, K., Elston, J., Gradinger, F., Callaghan, L. and Asthana, S (2019) Social prescribing: where is the evidence? *British Journal of General Practice*. 69, 678, 6-7.

Lovell, R., Husk, K., Blockley, K., Bethel, A., Bloomfield, D. a Warber, S. (2017) A realist review and collaborative development of what works in the social prescribing process. *The Lancet*.

## 8. Atodiadau

**Atodiad 1:** Agenda
**Atodiad 2:** Taflen Wybodaeth Astudiaeth
**Atodiad 3:** Ffurflen Ganiatâd
**Atodiad 4:** Cymeradwyaeth Foesegol
**Atodiad 5:** Tablau 'Round Robin' o ymatebion
**Atodiad 6:** Model Cymru

**YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU: PROSIECT DATBLYGU LLWYBR I BORTFFOLIO A ARIENNIR**

# CREU CYFALAF CYMDEITHASOL/CYFNEWID ASEDAU CYMUNEDOL MEWN RHAGNODI CYMDEITHASOL?

## 17 Gorffennaf 2019

**10 am-1pm (te/coffi ar gael o 9.30am)**

## Lleoliad:

**Canolfan Gymunedol Rhydyfelin**
**Heol Duffryn**
**Rhydyfelin CF37 5RW**
**Pontypridd**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF37 5RW**

## AGENDA

1. **10 am: Cyd-destun Llwybr i Bortffolio: Prosiect/ Gweithgaredd Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol - Sara Thomas**

2. **10.10 am: Allbynnau disgwyliedig a chyllid - Dr Sally Rees**

3. **10.20 am: Methodoleg Techneg Grŵp 'Nominal' - Dr Carolyn Wallace**

4. **10.30 am: Y camau nesaf: Gweithdy consenswS dan arweiniad Dr Carolyn Wallace**
    - **Cytuno ar ffocws y gweithgaredd ym maes rhagnodi cymdeithasol**
    - **Enwi cyfranwyr.**
    - **Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen.**

5. **12. 15 pm: Diagram model rhagnodi cymdeithasol: Ydy e'n gweithio, beth sydd ar goll?- Dr Sally Rees**

**TAFLEN WYBODAETH ASTUDIAETH AR GYFER GWEITHDY 17 GORFFENNAF 2019**

# LLWYBR I BORTFFOLIO: CREU CYFALAF CYMDEITHASOL/ CYFNEWID ASED CYMUNEDOL MEWN RHAGNODI CYMDEITHASOL?

**Ymchwilwyr: Dr Carolyn Wallace (Prifysgol De Cymru), Dr Sally Rees (GCCC), Sara Thomas (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)**

Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth gonsensws. Cyn i chi benderfynu a hoffech gymryd rhan ai peidio, dylech ddeall y rheswm dros gynnal yr astudiaeth a'r hyn fyddai yn ei olygu i chi. Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus. Croeso i chi ofyn cwestiynau i'r tîm ymchwil os na fydd pethau'n glir neu os hoffech ragor o wybodaeth. Cymerwch amser i benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio

1. **Beth ydy diben yr astudiaeth**

Rydych cyn cael eich gwahodd i gyfrannu at brosiect sy'n ceisio ystyried blaenoriaethau ymchwil a datblygu 3 chais am grant (1 mawr a 2 llai eu maint) gyda'r ffocws ar un o flaenoriaethau ymchwil Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Ymchwil Cymru (WSPRN) a'r meysydd canlynol â blaenoriaeth:

*Pa systemau allai gynnal asedau cymunedol? Sut gallwn ni wneud rhagnodi Cymdeithasol yn gynaliadwy?*

Dyfarnwyd Cronfa Ddatblygu Llwybr i Bortffolio (Ebrill-Medi, 2019) er mwyn datblygu prosiect /gweithgaredd ymchwil yng nghyd-destun rhagnodi Cymdeithasol ac wedi'i seilio ar flaenoriaethau a themâu a nodwyd gan Rwydwaith Ymchwil Rhagnodi Ymchwil Cymru yng Nghwm Taf Morgannwg. Dyfarnwyd cyllid y prosiect i Dr Carolyn Wallace ym Mwrdd Iechyd Prifysgol at Cwm Taf Morgannwg drwy ei chontract mygedol ond mae wedi'i leoli o fewn CGGC a fydd yn cynorthwyo datblygiad y gwaith.

Mae nifer o fodelau rhagnodi cymdeithasol yn bodoli yng Nghymru ac maen nhw i gyd yn gofyn i'r GIG, Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector gydweithio er lles y cyhoedd i gynnig rhagnodi cymdeithasol. Ar draws ôl troed Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, ceir amrywiaeth o fodelau sy'n cael eu harian o wahanol ffynonellau. Atgyfeirir pobl drwy wahanol lwybrau (e.e. drwy Feddyg Teulu) at ragnodwr cymdeithasol, gweithwyr cyswllt, cysylltydd cymunedol neu gydlynydd llesiant. Mae rôl pob un yn debyg, naill ai'n gweithio ar draws yr ystod oed o 18 a throsodd neu gyda grwpiau a chymunedau oed penodol. Ar hyn o bryd mae diffyg consensws ar yr hyn sy'n gweithio, sut a pham mae rhagnodi cymdeithasol yn gweithio ac ym mha amgylchiadau a pha weithgareddau neu asedau cymunedol sydd yn llesol, sydd ar gael neu'n ofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl. Mae angen cynyddol i ddatblygu sail tystiolaeth gadarn drwy nodi blaenoriaethau ymchwil drwy ymglymu dinasyddion, cymunedau lleol, ymarferwyr a rheolwyr ar draws disgyblaethau a sectorau, gwneuthurwyr polisi, comisiynwyr ac aelodau WSPRN.

2. **Pam ydw i wedi cael fy ngwahodd i gymryd rhan?**

Rydych chi wedi cael eich gwahodd gan fod diddordeb gyda chi mewn rhagnodi cymdeithasol neu am eich bod yn gweithio yn y maes. Caiff tua 50 o bobl eu gwahodd i gymryd rhan. Bydd pob cyfranogwr dros 18 oed. Mae gennym ddiddordeb gyda ni yn eich barn am beth ddylai blaenoriaethau ymchwil fod a'r modd y gallwn gydweithio i ddatblygu'r dystiolaeth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol.

3. **Oes raid i mi gymryd rhan?**

Chi sydd i benderfynu hynny. Darllenwch ddisgrifiad o'r astudiaeth ar y daflen wybodaeth hon i'ch helpu i benderfynu. Llofnodwch y ffurflen ganiatâd atodedig i ddangos eich bod yn cytuno i gymryd rhan. Mae croeso i chi dynnu nôl ar un rhyw adeg heb roi rheswm.

4. **Beth fydd yn digwydd i mi os ydw i'n cymryd rhan?**

Os cytunwch i gymryd rhan yn yr astudiaeth, dychwelwch y ffurflen ganiatâd i Carolyn Wallace neu dewch â hi i'r digwyddiad consensws, yn ogystal â'ch tair blaenoriaeth ar gyfer ymchwil.

Gofynnir i chi gymryd rhan mewn gweithdy hanner diwrnod gan ddefnyddio Techneg Grŵp Nominal gydag ymarferwyr ac unigolion sydd â diddordeb mewn rhagnodi cymdeithasol, i rannu profiadau a nodi cwestiynau ymchwil er mwyn symud ymlaen.

5. **Treuliau**

NI ddisgwylir i chi fynd i unrhyw gost o ganlyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

6. **Beth fydd rhaid i chi ei wneud?**

Bydd y digwyddiad consensws yn cynnwys gweithdy sydd yn defnyddio dull pedwar cam o fynd ati dan arweiniad Dr Carolyn Wallace, a fydd yn gweithredu fel cymedrolwr:

**Cam 1**: Creu syniadau y mae cyfranogwyr wedi dod gyda nhw i'r gweithdy. Gofynnir i'r cyfranogwyr *'beth ydy blaenoriaeth yr ymchwil (Pa systemau allai gynnal asedau cymunedol? Sut gallwn ni ei wneud yn gynaliadwy (Rhagnodi Cymdeithasol)? yn ddefnyddiol o fewn cyd-destun rhagnodi cymdeithasol*?' Gofynnir i gyfranogwyr ystyried eu 3 chwestiwn ymchwil, eu trafod a'u rhannu.

**Cam 2**: Cyfres o 'Round Robins' i gofnodi cwestiynau ymchwil

**Cam 3**:Trafodaeth ar y cwestiynau ymchwil a'u torri i lawr i nifer hydrin a realistig ar sail y nifer o gyfranogwyr sydd wedi cyfrannu eu tri chwestiwn ymchwil.

**Cam 4**: Proses bleidleisio gan ddefnyddio dotiau lliw er mwyn nodi'r cwestiwn/cwestiynau ymchwil pwysicaf i ddatblygu un cynnig am grant mawr a datblygu cais llai ei raddfa am gyllid ymchwil.

7. **Beth ydy'r anfanteision posibl a'r risgiau o gymryd rhan?**

Er yn annhebygol, rydyn ni'n sylweddoli ei bod yn bosibl i'r astudiaeth godi rhai materion yn gysylltiedig â'ch profiadau mewn rhagnodi cymdeithasol. Os bydd unrhyw bwnc a godir yn achosi gofid i chi, cewch gyfle i gael eich atgyfeirio at wasanaeth cwnsela addas ar gyfer cymorth, os bydd angen.

**8. Beth ydy'r manteision posibl o gymryd rhan?**

Ni allwn addo y bydd yr astudiaeth yn eich helpu'n uniongyrchol ond bydd y wybodaeth a fydd yn deillio o'r astudiaeth o gymorth i ddatblygu ceisiadau am grant ar gyfer ymchwil i ragnodi cymdeithasol yng Nghymru.

**9. A fydd fy rhan i yn yr astudiaeth yn cael ei gadw'n gyfrinachol?**

Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn a, lle bynnag posibl, bydd yn cael ei gadw. Fodd bynnag, bydd adegau pan na ellir gwarantu cyfrinachedd, er enghraifft, os, drwy'r gweithdy, bod yr hyn a ddywedoch yn peri pryder a allai fod yn achosi perygl i chi, unigolyn arall, neu blentyn, mae gan yr ymchwilydd ddyletswydd i riportio yr hyn a ddywedwyd.

Cedwir y wybodaeth a gasglwyd o'r astudiaeth yn hollol gyfrinachol ac yn unol ag egwyddorion Caldicott a Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (2018).

Bydd data ymchwil cyfranogwyr unigol yn ddienw. Bydd data a gasglwyd yn y gweithdy yn ddienw ac ni fydd yn cael ei briodoli i unrhyw unigolyn.

Caiff holl ddata electronig ei storio ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu gan gyfrinair. Cedwir y data yn ddiogel ac yna'i waredu yn ddiogel ar ôl 5 mlynedd yn unol â'r cyfarwyddyd ymchwil a argymhellir.

Y ffurflen ganiatâd, sy'n gofyn i chi am roi eich caniatâd penodol i gymryd rhan yn yr astudiaeth, fydd yr unig ddogfennaeth fydd yn dangos eich enw a chaiff hyn ei storio ar wahân i'r meddalwedd cyfrifiadurol Bydd hyn yn cael ei storio dan glo mewn cabinet mewn swyddfa fydd dan glo. Caiff y ffurflen ganiatâd ac unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â chi ei gadw'n ddiogel a'i waredu yn ddiogel ar ôl 5 mlynedd yn unol â chanllawiau ymchwil a argymhellir.

**10. Beth fydd yn digwydd os na fydda i'n parhau gyda'r astudiaeth?**

Os byddwch yn tynnu nôl o'r astudiaeth byddwn yn dinistrio'r holl wybodaeth a allai eich enwi.

**11. Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r gweithdy?**

Bydd crynodeb o'r canfyddiadau ar gael ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan. Efallai y cyhoeddir canlyniadau'r gweithdy mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.

Ar ôl y gweithdy a'r dadansoddiad, y nod fydd cynnal cyfres o gyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn datblygu'r cynigion am grantiau mawr a llai eu maint. Gofynnir i grŵp SUPER o aelodau lleyg Canolfan PRIME Cymru, dinasyddion sydd yn elwa ar hyn o bryd neu eisoes wedi elwa o ragnodi cymdeithasol ar draws y rhanbarth a'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdy consensws, am eu cyngor a'u sylwadau.

**12. Pwy sy'n trefnu'r ymchwil**

Mae'r astudiaeth yn cael ei chwblhau gan Dr Sally Rees yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), mewn partneriaeth â Dr Carolyn Wallace o Brifysgol De Cymru a Sara Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Noddir yr astudiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg drwy gynllun Llwybr i Bortffolio.

**13. Beth os bydd problem?**

Os byddwch yn pryderu am unrhyw agwedd o'r astudiaeth hon, dylech ofyn am gael siarad â Dr Sally Rees (srees@WCVA.org.uk neu ffonio 01745 357561) neu â Dr Carolyn Wallace (Carolyn.wallace@southwales.ac.uk neu ffonio 01443 483839) a fydd yn gwneud eu gorau glas i ateb eich cwestiynau.

Os ydych yn dal yn anhapus ac yn dymuno cwyno'n ffurfiol, gallwch wneud hyn drwy Jon Sinfield (Swyddog Llywodraethau Ymchwil, Prifysgol De Cymru) ar 01443 484518 neu anfon e-bost at: jonathon.sinfield@southwales.ac.uk a fydd yn eich cyfeirio at weithdrefn y Brifysgol ar achwyno.

**14. Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt:**

O bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â:


| Dr Sally Rees, WCVA | Dr Carolyn Wallace |
| --- | --- |
| E-bost: srees@WCVA.org.uk<br>Ffôn: 01745 357561 | E-bost: Carolyn.Wallace@southwales.ac.uk<br>Ffôn: 01443 48383 |

University of South Wales

**FFURFLEN GANIATÂD ASTUDIAETH**

Teitl y Prosiect: CREU CYFALAF CYMDEITHASOL / CYFNEWID ASEDAU CYMUNEDOL MEWN RHAGNODI CYMDEITHASOL?

Enw'r Ymchwilydd: Dr Carolyn Wallace, Dr Sara Thomas a Dr Sally Rees.

Llofnodwch (**llythrennau cyntaf eich enw**) ym mhob blwch

1. Cadarnhaf mod i wedi darllen ac wedi deall y daflen wybodaeth dyddiedig 21/06/19 (v1) ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rydw i wedi cael cyfle i ystyried y wybodaeth, i ofyn cwestiynau ac wedi derbyn atebion boddhaol ☐
2. Deallaf mod i'n cymryd rhan yn wirfoddol a mod i'n rhydd i dynnu nôl heb roi unrhyw rheswm ar unrhyw adeg a heb unrhyw ganlyniad i mi fy hun. ☐
3. Cytunaf i fy nata dienw gael ei ddefnyddio mewn adroddiadau penodol ac mewn erthyglau dilynol a fydd yn ymddangos mewn cylchgronau academaidd. ☐
4. Cytunaf i fy ngwybodaeth bersonol gael ei phrosesu at ddibenion yr astudiaeth ymchwil hon. Deallaf y caiff y cyfryw wybodaeth ei thrin yn gyfrinachol a'i thrafod yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ☐
5. Sylwer: cyflwynir datganiad o weithgaredd amhroffesiynol, anghyfreithlon neu weithgaredd a allai arwain at niwed i unigolyn, yn cynnwys y cyfwelai, i'r awdurdodau perthnasol. ☐
6. Cytunaf i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod. ☐

| ________________ | ________________ | ________________ |
|---|---|---|
| Enw'r Cyfranogwr | Dyddiad | Llofnod |
| ________________ | ________________ | ________________ |
| Enw'r unigolyn sy'n derbyn y caniatâ - | Dyddiad | Llofnod. |

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Professor Julie E Lydon OBE, Vice-Chancellor
Yr Athro Julie E Lydon OBE, Is-Ganghellor

Friday 12th July 2019

Dr Carolyn Wallace
C/o Faculty of Life Sciences and Education
University of South Wales

Dear Carolyn,

**Faculty School Ethics Sub Group Feedback – 'Creating social capital/community asset exchange in social prescribing' [19CW0702LR]**

I am writing to confirm that on the 12th July 2019, the Schools of Health, Sport and Professional Practice and Care Sciences Research Ethics Sub Group, approved your submission for ethical approval.

Please note:

i. Approval is valid for 2 years from the date of issue, you will be notified when approval has expired but you are expected to be mindful of this expiration. Upon the expiration of this ethics approval you may apply for an extension.

ii. The approved documents are attached. If you intend on deviating from the approved protocol, research team, or documentation you will need to seek approval for any changes.

iii. This approval does not confirm that indemnity or insurance are in place for this project.

iv. Please confirm when your research project has closed (a one page closure report highlighting any recruitment issues, adverse events, publications etc. should be appended).

If you have any queries about the committee's decision, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

Professor Peter McCarthy
Chair of Faculty Ethics Committee

University of South Wales, Newport City Campus,
Usk Way, Newport, NP20 2BP UK
Tel 03455 76 01 01 Fax 01633 432 046

www.southwales.ac.uk
www.decymru.ac.uk

Prifysgol De Cymru, Campws y Ddinas Casnewydd,
Ffordd Brynbuga, Casnewydd, NP20 2BP DU
Ffôn 03455 76 01 01 Ffacs 01633 432 046

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

The University of South Wales is a registered charity. Registration No. 1140312
Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Elusen 1140312

# Atodiad 5

**Tabl 1. Y 'papur gwyrdd': y 3 chwestiwn unigol uchaf (45 o gyfranogwyr)**

1. Pa wersi y gellir ei dysgu gan y gymuned i sicrhau bod yr asedau cymunedol yn dod yn gynaliadwy a bod dysgu yn cael ei gydnabod ac y gweithredir arno?
2. Sut gall cymunedau wneud eu hasedau'n gynaliadwy?
3. Sut mae chwalu rhwystrau systemig mewn prosesau trosglwyddo asedau?
4. Pa gymorth proffesiynol a chymunedol sydd gennym i rymuso'r gallu lleol i gynnal?
5. Sut mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael eu cyfathrebu?
6. Sut mae prosiectau/gwasanaethau a chomisiynwyr yn ystyried effaith hirdymor eu darparu?
7. Sut ydyn ni'n mynd i wneud yr asedau cymunedol yn gynaliadwy - cyllid cynaliadwy, yn y tymor byr?
8. Darparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol h.y. hyfforddiant, hyfforddi dwy gymell.
9. Gwnewch broses gomisiynu yn ddigon syml y gall pawb ei chyrchu; lleihau biwrocratiaeth a rhwystrau.
10. Sut ydyn ni'n sicrhau 'arferion gorau o ran rhagnodi cymdeithasol? Pwy sy'n archwilio arfer gorau i sicrhau hyder yn y system? Cod ymddygiad - sut mae cydbwyso hyn heb rwystro pobl?
11. Sut y cawn ni effaith hirdymor pan mai dim ond cyllid tymor byr y gallwn ei gael i ddarparu rhagnodi cymdeithasol?
12. Sut ydyn ni'n gwneud yn siŵr bod opsiynau rhagnodi cymdeithasol yn diwallu anghenion pawb mewn cymdeithas (h.y. sut ydyn ni'n darparu digon o ddewisiadau i fodloni buddiannau'r 'lliaws?)
13. Sut ydyn ni'n deall cynaliadwyedd asedau cymunedol yng nghyd-destun toriadau difrifol/hirdymor yng nghyllid y wladwriaeth?
14. Sut ydyn ni'n deall cynaliadwyedd asedau cymunedol i syniadau o wydnwch (osgoi'r model diffyg) ac allgau cymdeithasol ac anfantais?

15 Sut ydym ni'n deall cynaliadwyedd asedau cymunedol yng nghyd-destun agenda llesiant Cymru – y 7 nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

15. Sut ydyn ni'n sicrhau ansawdd gwasanaethau (lle bo'n berthnasol)?
16. Sut ydyn ni'n mesur ac yn pennu anghenion y boblogaeth?
17. Sut mae osgoi dyblygu?
18. Cyd-gynhyrchu i fod yn fwy llyfn rhwng y trydydd sector, iechyd, awdurdod lleol a chymuned?
19. Ariannu tymor hwy/cynaliadwy yn seiliedig ar dystiolaeth, heb gael ei yrru gan ystadegau, angen monitro.
20. Darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ansawdd, enwau cyfarwydd, heb wasanaethau'n newid yn gyson
21. Ansawdd gwasanaeth, caffael, ymarferwyr, dilyniant, hyfforddiant.
22. Nifer sy'n manteisio: sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu defnyddio?
23. Tystiolaeth o angen ac effaith: prawf o werth, astudiaethau achos yn ogystal â data, perthnasoedd llyfn a seilwaith.
24. Sut allwn ni ddeall a darparu gwybodaeth yn well am argaeledd tir ac asedau'r sector cyhoeddus at ddefnydd cymunedol?
25. Darparu cymorth technegol (rheoli tir, cynaliadwyedd amgylcheddol) ar gyfer prosiectau cymunedol?
26. Sut gall cyd-gynhyrchu helpu? Sut y gall rhagnodwyr cymdeithasol ffurfio gwell cysylltiad â mudiadau eraill fel cynllunio a thai i sicrhau bod rhagnodi cymdeithasol yn rhan annatod o'r cynllun o'r dechrau?
27. Sut ydyn ni'n ymglymu defnyddwyr gwasanaethau?
28. Ydy cymunedau'n gweld pwysigrwydd rhagnodi cymdeithasol?
29. Pa gymorth/asedau cymunedol sydd eisoes ar gael ar gyfer cymunedau?
30. Cyfle cyfartal o gyllid.
31. Adnabod 'asedau': nodi beth sydd ar gael a sicrhau bod unrhyw gomisiynu a chaffael yn osgoi unrhyw elfen o ddyblygu.
32. Gwerthuso'r holl brosiectau rhagnodi cymdeithasol cyfredol a nodwyd yn yr un modd i sicrhau gwaelodlin – gweithio gyda'r hyn sy'n gweithio
33. Comisiynu: yn deg a chynaliadwy.
34. Mapio: parhau'n gyfredol o ran y natur amrywiol, deinamig y gymuned a'r trydydd sector.
35. Datblygiad Cymunedol: Pwy, sut, ble, beth? Cyd-gynhyrchu.

37. Sut mae apelio at gyllidwyr (e.e. y Loteri Genedlaethol i ddarparu cyllid parhaus yn hytrach na phrosiectau tymor byr? Un o'u nodweddion allweddol ydy bod prosiectau yn newid, ond weithiau mae cysondeb a pharhad yn dda!
38. A ddylen ni fod yn mapio mannau ym mhob ardal a allai fod yn ganolfannau ar gyfer gwasanaethau? Mae'n anodd weithiau gwybod ymhle, yng nghymunedau unigol pobl, y gellir lleoli prosiectau.
39. Ydyn ni angen 'gwaelodlin' o'r hyn ddylid ei gynnig i gwrdd ag agenda rhagnodi cymdeithasol?

40. Sut gallwn ni sicrhau bydd pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau/asedau ar ôl clywed amdanyn nhw?
41. Sut gall gwasanaethau/asedau fod yn gynaliadwy a dibynadwy gyda'r cyllid ond yn un tymor byr?
42. Pam bod pobl yn hunan-gyfeirio?

43. Sut gallwn ni sicrhau refeniw cyson/ffrwd ariannu?
44. Sut gallwn ni gyflogi, hyfforddi a chadw'r gweithlu?
45. Sut gallwn ni sicrhau negeseuon cyson a dealltwriaeth gyffredinol dda (cyhoeddus a phroffesiynol) am ragnodi cymdeithasol/ asedau cymunedol?

46. Sut gallwn ddatblygu bas data o sefydliadau y gall meddygon teulu eu cyrchu i gyfeirio cleifion ar gyfer rhagnodi cymdeithasol?
47. Sut orau gallwn ni hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol ymhlith y cyhoedd?
48. Sut gallwn ni gyrraedd unigolion sydd ddim yn ymglymu â'r gwasanaeth gofal iechyd, ond sydd angen cymorth i leihau cael eu hynysu?

49. Gwneud 'asedau'n' gynaliadwy: sicrhau cyllid hirdymor yng nghyd-destun cyllido swyddi byrdymor
50. Sicrhau bod yr asedau yn 'briodol' yn ôl penderfyniad y gymuned, heb fod ar gyfer y gymuned (diffinio/blaenoriaethu asedau).
51. Heb gymryd yn ganiataol mai 'gwirfoddoli' ydy'r ateb: angen deall cryfderau a diddordeb gwirfoddolwyr

52. Cyllido.
53. Mynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth e.e. amseroedd agor.
54. Staffio, hyfforddiant, rheoli ansawdd.

55. Gwneud hwyluswyr/ arweinyddion grwpiau yn gynaliadwy drwy bobl yn y gymuned yn hytrach na staff sefydliadau.
56. Y modd y cyllidir y trydydd sector h.y. cyfyngedig i amser, cyfyngiadau ar gyllid ac ar yr hyn y gellir eu ddefnyddio, ennill tendrau/ail-gomisiynu.
57. Cyfathrebu: codi ymwybyddiaeth o'r asedau a'r grwpiau yn y gymuned er mwyn i bobl wybod eu bod yno.

58. Cyllido: ffrwd gyson a chadarn.
59. Cludiant: mae nifer o gymunedau diarffordd nad yw cludiant cyhoeddus yn eu cyrraedd, rhaid ystyried daearyddiaeth y Cymoedd.
60. Asedau: eu nodi a'u diogelu h.y. adeiladau, cyfleusterau, sefydliadau pobl a gwirfoddolwyr.

61. Is-adeiledd cadarn yn ei le
62. Gwasanaethau dibynadwy a hyblyg.
63. Mynediad.

64. Mae gan grwpiau cymunedol systemau anffurfiol a dyna pam nad ydyn nhw'n llwyddiannus a chynaliadwy.
65. Sut gallwn ni wneud y cysylltiad rhwng y grwpiau hynny yn fwy ffurfiol a phroffesiynol, cyflenwol a chefnogol?
66. Sut gallwn ni gynorthwyo grwpiau cymunedol llai eu maint i fod mewn sefyllfa i groesawu aelodau newydd sydd ag anghenion fwy cymhleth?

67. Dylai technoleg allu cynorthwyo a gwerthuso pob angen (e.e. Elfennol/Elemental yn enghraifft).
68. Cyllido parhaus h.y. contractau parhaol.
69. Buddsoddi mewn hyfforddiant.

70. Sut ydyn ni'n gwneud cyllido yn gynaliadwy er mwyn sicrhau hirhoedledd asedau cymunedol?
71. Sut ydyn ni'n sicrhau bod y cleient yn cael y 'daith cleient' orau heb gyfeiriadau mynych cyn i angen penodol gael ei ddiwallu? (h.y.. Meddyg yn atgyfeirio i GPSO, GPSO yn atgyfeirio i sefydliad, y sefydliad yn atgyfeirio at sefydliad arall ayb)
72. Sut ydyn ni'n sicrhau sylfaen ased cymunedol tyn, agos- gan osgoi dyblygu ar gyfer y cleient?

73. Cyllido – dydy cyllido fesul blwyddyn ddim yn caniatáu i sefydliadau gynllunio'n llawn a datblygu.
74. Does dim arian gan bobl, mae llawer yn byw mewn tlodi, dydyn nhw ddim yn gallu fforddio teithio. Rhwystrau o ran cludiant – amserlenni gwael

| | |
|---|---|
| 75. | Pobl mewn tlodi: dydy gweithgareddau cymdeithasol ddim yn flaenoriaeth uchel ganddyn nhw pan na allan nhw fforddio i fwyta ayb. Sut gallwn ni oresgyn tlodi fel rhwystr? |
| 76. | Cyllido: Hirdymor a pheidio â dibynnu ar gyllido fesul blwyddyn. |
| 77. | Cludiant cymunedol: Dydy pobl ddim yn gallu fforddio defnyddio cludiant preifat a dydy cludiant cyhoeddus ddim yn addas bob amser. |
| 78. | Datblygiad cymunedol: Pwy fydd yn cynorthwyo staff yn y tymor hir i gynnal asedau cymunedol? |
| 79. | Sut gall asedau cymunedol hysbysu eu gweithgareddau a'u cyfleoedd, ble maen nhw, pryd, beth, sut? Sut i gael y wybodaeth i'r mannau angenrheidiol? |
| 80. | Sut gellir annog pobl ifanc i fod yn weithredol yn eu cymuned er mwyn cael ffynhonnell o adnoddau cynaliadwy? |
| 81. | Sut gellir helpu asedau/grwpiau cymunedol gyda 'biwrocratiaeth' e.e. trwydded, caniatâd, adeilad? |
| 82. | Lleoliadau: Lleoliad delfrydol addas i'r diben, pwy sy'n ei gynnal a'i gadw, yn y lleoliad cywir ar gyfer y bobl gywir, ar agor ar yr adeg briodol, oes man gwyrdd yno, gallu parcio, ar lwybr bws, wedi'i hysbysebu'n dda, ydy pobl yn ei ddefnyddio, os nad ydyn nhw, pam? Ydy e'n cynnig grŵp mentora, oes cyfarpar yno ayb? |
| 83. | Gwirfoddolwyr: Pobl yn ymglymu – oes pobl yn gwirfoddoli i helpu yn yr ardaloedd hyn, i hysbysebu i gael pawb i ymglymu. Oes stigma tu ôl i hyn, mae gwirfoddoli yn gymdeithasol, yn codi hyder, a'ch ymglymu yn y gymuned? |
| 84. | Pobl ifanc: Y gymuned yn cael (y bobl ifanc) i datblygu'r sgiliau hyn i ddeall y galw i fynd ymlaen. |
| 85. | Gwybodaeth gyfredol. |
| 86. | Dealltwriaeth well o'r manteision ar gyfer grwpiau (asedau cymunedol). |
| 87. | Cymorth ariannol/cynaliadwyedd |
| 88. | Sut ydyn ni'n sicrhau parhad y cyllido sy'n galluogi cynllunio hirdymor a dibynadwyedd ar adeg pan fo cyllid arianwyr /comisiynwyr/awdurdodau lleol/byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn llai o ganlyniad i 'gyni'? |
| 89. | Sut ydyn ni'n sicrhau ansawdd sefydliadau cymunedol yr ydyn ni'n eu cynnig bobl a atgyfeirir drwy ragnodi cymdeithasol? |
| 90. | Sut ydyn ni'n annog ystod lawn o weithgareddau a fydd at ddant pawb, ond yna sicrhau bod dymuniadau, anghenion a gweithgareddau yn matsio? |
| 91. | Ar gael yn gyffredinol. |
| 92. | Grwpiau â blaenoriaeth – pobl a gwasanaethau. |
| 93. | Canlyniadau ac ansawdd. |
| 94. | Sicrhau ymglymiad defnyddwyr gwasanaethau. |
| 95. | Sut ydyn ni'n sicrhau bod yr holl grwpiau /asedau/lleoliadau ar gael; gweithio clir mewn partneriaeth. |
| 96. | Sicrhau y gall gwasanaethau cymorth ymateb i angen lleol. |
| 97. | Sut mae'r unigolyn yn cynllunio'r daith? |
| 98. | Sut mae unigolion yn cael eu cynorthwyo yn eu cymunedau eu hun (h.y. os bydd angen Meddygon Teulu neu bobl amgen mewn lleoliad arall)? |
| 99. | Sut ydyn ni'n gwybod ar ôl i berson gael ei gyfeirio bod canlyniad positif i hynny ? |
| 100. | Cyllido: Hirhoedledd/cynaliadwy (yn dod mewn rhaglen yn hytrach na phrosiect). |
| 101. | Cysondeb: Ond, angen i agweddau arbennig fod yn benodol i bwnc o ran anghenion unigolyn, angen lefel gyson e.e. cymorth, cyfarwyddyd help a ddarperir. |
| 102. | Gwybodaeth (sylfaen tystiolaeth): Codi ymwybyddiaeth ar raddfa fawr (yn gyson ) ac ar beth ydyn ni'n seilio'n canlyniadau arnyn nhw? |
| 103. | Cyllid cynaliadwy – nid yn unig cyllid byrdymor ar gyfer prosiectau |
| 104. | Effeithiolrwydd asedau, gwasanaeth, ydyn nhw'n addas ac yn helpu? |
| 105. | Cyd-ddealltwriaeth a diffiniad o ragnodi cymdeithasol. |
| 106. | Sut gallan nhw (asedau cymunedol) gael eu cyllido er mwyn iddyn nhw fod yn ariannol gynaliadwy? |
| 107. | Sut gallwn ni sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u cynorthwyo? |
| 108. | Sut gallwn ni ddenu'r bobl briodol i gyflogaeth â thâl a'u cadw yn eu swydd? |
| 109. | Sut gallwn ni wella'r cyfathrebu rhwng sefydliadau ar yr hyn sydd ar gael, sut gallwn ni gyfathrebu gyda phawb? |
| 110. | Sut gallwn ni gael systemau haws i gyrchu cyfleoedd gweithgaredd corfforol h.y. atgyfeirio syml i mewn i gynlluniau megis NERS? |
| 111. | Sut gallwn ni wella'r ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen? |

| | |
|---|---|
| 112. | Cyfathrebu rhwng cymunedau a sefydliadau (dim dyblygu gwasanaethau) |
| 113. | Gwerthuso'r hyn sydd yn gweithio yn eich grŵp/ardal |
| 114. | Beth ydy'r angen yn eich grwpiau/ardal (gofynnwch i'r bobl). |
| 115. | Cyfathrebu: pwy, beth, ble? |
| 116. | Cydlynu: Pwy sy'n sicrhau bod pobl yn gwybod am yr hyn sydd ar gael, pa ddarparwr? |
| 117. | Cyllid: Sut i'w wneud yn gynaliadwy, pwy/sut? |
| 118. | Cydlyniad: Pwy sydd ar gael, beth sydd ar goll? |
| 119. | Cysylltu: â'r gymuned, partneriaid, Meddygon Teulu . |
| 120. | Cydweithredu: I gynnig raglenni gweithgaredd cymunedol. |
| 121. | Gweithwyr iechyd proffesiynol yn 'prynu i mewn'– 100%, Ond rhaid holi 'Sut'?. Angen credu mewn atal nid ateb |
| 122. | Gwell mynediad i gyngor syml ar ffordd o fyw ac ystod o leoliadau a llwyfannau cymunedol |
| 123. | Datblygu rhwydwaith o 'hyrwyddwyr cymunedol' y gellir ymddiried ynddyn nhw i weithio yn eu cymuned i annog hunan-atgyfeirio ac os oes angen i 'afael llaw' er mwyn codi hyder. |
| 124. | Grymuso a hyfforddiant cymunedau. |
| 125. | Chwilio am  wirfoddolwyr/grwpiau sydd eisoes yn bodoli i yrru newid. |
| 126. | Buddsoddi mewn cymunedau ar y cychwyn o leiaf i annog cymorth, cynaliadwyedd a rhoi'r adnodd i'r gymuned i fod yn gydnerth. |
| 127. | Sut i sicrhau y gall pawb gyrchu mannau awyr agored lle gallan nhw deimlo'n gyfforddus? |
| 128. | Mae iechyd meddwl yn elwa o fod yn yr awyr agored. |
| 129. | Sut i ddatblygu cymorth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yn y sector amgylchedd? |
| 130. | Cyllid: Sicrhau bod digon o gymorth ariannol i elusennau /gwasanaethau trydydd sector i barhau |
| 131. | Hygyrchedd: Cynnig cyfleoedd i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ym mhob ardal o Gwm Taf Morgannwg ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth, e.e. adeiladau i ddarparu gwasanaethau |
| 132. | Hyfforddiant/gwirfoddolwyr: Sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyffredinol. |
| 133. | Cyllido: A allwn ni fforddio rhagnodi cymdeithasol neu a ydy e'n gynaliadwy? Mae sefydliadau yn cynnig yr un gwasanaethau a'i gilydd. |
| 134: | Yn ystod y comisiynu, sut sicrhawn na fydd ein prosesau yn peryglu'r sefydliadau y dymunwn eu cyllido. |
| 135. | Tegwch a thryloywder: Ydyn ni'n mynd i fod yn onest am y gost, y canlyniadau a'r gwerthuso? Sut byddwn ni'n gwybod ei fod (y rhagnodi cymdeithasol ) yn iawn, i bwy ydyn ni'n gofyn? Ni allwn warantu cysondeb llwyr yn y gwerthuso na'r monitro. Dylai hyn fod yn berthnasol i'r sefydliad neu'r cyflenwi. |

## Tabl 2. Y 'papur pinc': mewn parau y 3 chwestiwn/sylw uchaf

| | |
|---|---|
| 1. | Sut ydyn ni'n 'cydbwyso' goblygiadau i ddiogelu â sicrhau nad ydy sefydliadau llai/grwpiau anffurfiol yn cael eu cyfyngu gan brosesau ffurfiol diogel? |
| 2. | Modelau heb ddiffygion yn tynnu ar ddatblygiadau organig grwpiau a sut i hwyluso'r broses hon; meddwl am y syniad o 'angen' a chymhlethdodau strwythur cadarn. |
| 3. | Perthynas rhwng Meddyg Teulu a gweithwyr cyswllt a grwpiau anffurfiol llai: problem – Meddygon teulu yn gwneud synau positif ond ddim yn trosi hyn yn atgyfeiriadau. |
| 4. | Sut ydyn ni'n priodi prosiectau, cymunedau a chomisiynwyr er mwyn sicrhau effaith hirdymor y cyflenwi a chynorthwyo cymunedau i wneud eu hasedau yn gynaliadwy? |
| 5. | Sut ydyn ni'n dadelfennu rhwystrau systematig er mwyn cyfathrebu yn well i wella'r cynnig o Wybodaeth, Cymorth a Chyngor (IAA)? |
| 6. | Pa gymorth sydd gennym eisoes a sut ydyn ni'n sicrhau nad oes dyblygu? |
| 7. | Sut gallwn ni sicrhau bod asedau'r gymuned yn cael eu cynnal yn ariannol? |
| 8. | Sut gallwn ni ddenu'r bobl fwyaf medrus a gwybodus? |
| 9. | Sut gallwn ni ddeall yn well yr hyn sydd ei angen? |
| 10. | Sut gallen ni sicrhau bod cyllido cynaliadwy ar gael i grwpiau a sefydliadau llai eu maint? Sicrhau bod yr arferion gorau yn eu lle drwy systemau monitro er mwyn sicrhau ei bod yn codi hyder o fewn y system heb fiwrocratiaeth na rhwystrau? |
| 11. | Sut gallwn ni sicrhau bod grwpiau yn cyrchu'r hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol? |

| |
|---|
| 12. Rhaid bod 'dyletswydd i ofalu' am bobl yn datblygu grwpiau ar gyfer diogelu a thryloywder drwy hyfforddiant, datblygiad ac ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael. |
| 13. Defnyddwyr yn rhan o'r broses gynllunio fel y gallan nhw wneud dewisiadau.<br>14. Sut gallen ni sicrhau bod holl grwpiau ar draws sectorau yn cymryd rhan ac yn cydweithio gyda chyd-weledigaeth o'r hyn ydy 'partneriaethau da'?<br>15. Sut gwyddon ni bod cymorth lleol, tameidiog yn gweithio – pa feini prawf ddylen ni eu diwallu? |
| 16. Grymuso cymunedau i ddefnyddio mannau yn yr awyr agored o fewn cymunedau<br>17. Chwilio am grwpiau cyfredol sy'n gyrru newid a hybu iechyd meddwl yn yr awyr agored.<br>18. Buddsoddi yn natblygiad cymunedau er mwyn hybu hyder, grymuso, cynaliadwyedd a gwytnwch. Cynorthwyo cymunedau wrth gynnig adnoddau iddyn nhw. |
| 19. Rhagnodi cymdeithasol a hyfforddiant rennir yn gyffredinol ar gael ar draws Cwm Taf Morgannwg.<br>20. Ansawdd: diogel, digon o adnoddau, cyson a chadarn<br>21. Wedi'i seilio ar dystiolaeth: comisiynu ar angen canfyddadwy ac ar ganlyniadau. |
| 22. Ansawdd: Is-adeiledd (cysylltiadau llyfn), llywodraethiant, cyflenwi a gwasanaethau a hyfforddiant.<br>23. Derbyniadau: Sicrhau atgyfeiriadau – sicrhau bod pobl yn dod yno!<br>24. Tystiolaeth angen ac effaith: astudiaethau achos, ystadegau, gwerth am arian ac ad-enillion cymdeithasol |
| 25. 'Atal nid cyweirio ' – gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn prynu i mewn 100%. Y cwestiwn ydy sut, gan ei gofod yn dibynnu ar gysylltiadau.<br>26. Mynediad gwell i gyngor syml ar lesiant mewn ystod o leoliadau a llwyfannau hygyrch yn y gymuned.<br>27. Datblygu rhwydwaith o 'hyrwyddwyr cymunedol' (nid yr uchaf eu cloch) i weithio yn eu cymuned i annog hunan atgyfeirio ac os oes angen i 'afael llaw'? |
| 28. Cyfathrebu.<br>29. Gwerthuso'r angen.<br>30. Cychwyn y camau gweithredu i ddelio â'r angen (cyllido). |
| 31. Sut gallwn ni ddatblygu bâs data o sefydliadau y gall Meddygon Teulu eu cyrchu er mwyn atgyfeirio cleifion i sefydliadau ar gyfer rhagnodi cymdeithasol?<br>32. Sut gallwn ni hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol ymhlith y cyhoedd?<br>33. Sut gallwn ni gyrchu'r unigolion hynny sydd dim yn ymglymu gyda gwasanaethau gofal iechyd ond angen cymorth i deimlo'n llai ynysig? |
| 34. Cyllido: Sut ydyn ni'n apelio at gyllidwyr i gynnig cyllid tymor hirach i alluogi asedau/ gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach?<br>35. Sut gallwn ni sicrhau bod pobl yn cyrchu gwasanaethau/asedau ar ôl clywed amdanyn nhw?<br>36. Mapio gwasanaethau a lleoliadau. |
| 37. Cysondeb: gwerthuso, monitro, cyllido/amser yn erbyn y galw am ganlyniadau, disgwyliadau data.<br>38. Gwirfoddoli: deall disgwyliadau, mynd â phethau nôl i'r sylfaenol– ystyried yr unigolyn a'u galluoedd, sgiliau/hyfforddiant a galwadau .<br>39. Cynaliadwyedd: ai prosiect untro ydy hwn neu a fydd yn cael ei gynnig gan y rhai a alla ei gyflenwi? Angen ystyried y broses gomisiynu (disgwyliadau – swyddi yn amrywiol). |
| 40. Hyfforddi gwirfoddol: sgiliau 1:1, hyfforddiant ar gwnsela ar 'sut' e.e. cyfweld, biwrocratiaeth, â phwy i gysylltu, hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr i ddelio ag anghenion cymhleth.<br>41. Hygyrchedd: cadw/gwneud cyfleusterau lleol er mwyn sicrhau cysylltiadau cludiant hawdd, mynediad corfforol hawdd i ganolfannau a hybiau yn y gymuned.<br>42. Cyllido: Cyllido tymor byr a gostyngiad yn y cyllid, costau cynyddol e.e. adeiladau |
| 43. Cyllido: gweledigaethau tymor hirach, amser sefydlu, cyflenwi a helpu i wneud cais am gyllid.<br>44. Cyd-gynhyrchu: Nodi'r asedau 'cywir', cymorth ar yr adeg a'r lefel 'briodol'. Ymgorffori safon cytûn o gymorth/sicrhau ansawdd.<br>45. Mynediad: amseroedd agor, cludiant, staffio (heb wirfoddolwyr), sgiliau a hyfforddiant. |
| 46. Is-adeiledd cadarn yn ei le (lleoliadau a gwasanaethau).<br>47. Cyllido cylchol a chontractau parhaol.<br>48. Adnoddau hygyrch ar gyfer holl ddefnyddwyr gwasanaeth h.y. anabledd a nodweddion a warchodir. |
| 49. Materion cyllido: Heb gyfyngiad amser e.e. 1 flwyddyn, llai cyfyng e.e. codau post, ffrwd mwy cyson.<br>50. Asedau: eu nodi a'u diogelu, e.e. adeiladau, pobl, gwirfoddolwyr ayb. gwneud grwpiau yn hunan-gynaliadwy, rhoi cymorth priodol er mwyn gallu cynnal tymor hirach e.e. pan na fydd staff/ sefydliadau yno.<br>51. Cyfathrebu: sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o'r asedau/grwpiau yn eu cymunedau y gallan nhw eu cyrchu. |

| |
|---|
| 52. Cynnal asedau cymunedol; angen gwarantu cyllid yn hirach– mae hyn yn caniatáu i staff â phrofiad i gynnal asedau ar gyfer rhagnodi cymdeithasol<br>53. Cludiant cymunedol– pobl ddim yn gallu mynd i'r lleoedd oherwydd yr is-adeiledd neu'r gost.<br>54. Angen i gomisiynwyr ail-ystyried gofyn am fonitro a data ansoddol yn hytrach na rhai meintiol. Angen ystyried rhwystrau i faterion 'dynol', anableddau a thlodi ayb. |
| 55. Cyllido: teg, cydradd a digonol. Sicrhau bod unrhyw gomisiynu. Caffael yn dileu dyblygu ac mae'r holl randdeiliaid yn rhan o'r broses.<br>56. Asedau: Diffiniadwy – beth ydy ased? Unigolyn, adeilad, grŵp, prosiect, gwirfoddolwr?<br>57. Gwerthuso cyson ar draws y darn. |
| 58. Sut i sicrhau bod ansawdd ac effeithiolrwydd asedau yn addas ac o gymorth<br>59. Sut i fesur/ penderfynu 'anghenion y boblogaeth'?<br>60. Beth sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau cyllido cynaliadwy? |
| 61. Sut ydyn ni'n sicrhau parhad cyllido sy'n galluogi cynllunio hirdymor a dibynadwyedd ar adeg pan fo cyllidwyr/comisiynwyr yn derbyn llai o gyllid oherwydd cyni?<br>62. Sut ydyn ni sicrhau gwybodaeth berthnasol a chyfredol am grwpiau yn enwedig grwpiau cymunedol bach, a sicrhau bod pobl (pobl a gweithwyr cyswllt) yn gwybod ble i gael/cyrchu'r wybodaeth honno? Angen manteisio i'r eithaf ar ystod llawn y gweithgareddau sydd ar gael (ddim i gyd ar-lein)?<br>63. Dealltwriaeth well o fanteision grwpiau a sicrhau (cymesur) ansawdd y sefydliad yr ydyn ni'n rhoi ar waith ar gyfer pobl. Efallai nad oes gan sefydliadau bach iawn unrhyw bolisi diogelu, dim byd ffurfiol, cychwyn cyfarfod, ond gwerthfawr ond beth ydy lefel ein disgwyliadau? Sut ydyn ni'n gwybod bod gweithgareddau yn 'ddiogel'? |
| 64. Sut ydyn ni'n priodi prosiectau, cymunedau a chomisiynwyr i sicrhau effaith hirdymor y cynnig a'r cymorth i gymunedau i wneud eu hasedau yn gynaliadwy?<br>65. Sut ydyn ni'n chwalu'r rhwystrau i gyfathrebu yn well, i wella'r cynnig Gwybodaeth Cyngor Chymorth?<br>66. Pa gymorth sydd gennym eisoes a sut ydyn ni'n sicrhau nad oes dyblygu? |

**Tabl 3. Y 'papur melyn': mewn grwpiau o 8/9 y 3 chwestiwn/sylw pwysicaf**

| |
|---|
| 1. Cyllido (Comisiynu a Chaffael): Cynaliadwy, cydradd, digonol a phob rhanddeiliad yn cymryd rhan yn y broses, Diogelu'r asedau a nodir.<br>2. Cyd-gynhyrchu wrth wraidd comisiynu; comisiynu trugarog.<br>3. Gwerthuso: cyson ar draws yr ardal, mwy o bwyslais ar effaith ansoddol ar lesiant dinesydd yn hytrach na chasglu data meintiol. |
| 4. Hyfforddiant a sgiliau gwirfoddoli i ddiwallu'r galw, deall y disgwyliadau, biwrocratiaeth, nôl at y pethau sylfaenol.<br>5. Hygyrchedd a gwybodaeth: Cadw/cynnal cyfleusterau, cludiant lleol, hysbysebu o fewn y gymuned i hysbysu am yr hyn sy'n digwydd ymhle a phryd.<br>6. Cynaliadwyedd a chyllid: contractau byrdymor, pobl, swyddi, disgwyliadau realistig ac ail-ystyried y broses gomisiynu. Caniatáu i bethau fod yn gyson i'r darparwr a'r gymuned. |
| 7. Pa gymorth sydd eisoes ar gael i ni a'r hyn sydd ei angen a sut allwn i sicrhau na fydd dyblygu?<br>8. Sut ydyn ni'n chwalu rhwystrau systematig er mwyn cyfathrebu'n well i wella'r broses IAA (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth?<br>9. Sut ydyn ni'n priodi cymunedau a chomisiynwyr i sicrhau effaith hirdymor y cynnig a helpu cymunedau i wneud eu hasedau yn gynaliadwy a chadw staff medrus. |
| 10. Cyfathrebu: Datblygu rhwydwaith o 'hyrwyddwyr cymunedol' y gellir ymddiried ynddyn nhw i weithio yn eu cymunedau i annog hunan-atgyfeirio a 'gafael llaw' os oes angen?<br>11. Gwerthuso: gwell mynediad i gyngor syml ar lesiant mewn ystod eang o leoliadau a llwyfannau yn y gymuned?<br>12. Pobl broffesiynol gofal iechyd: treialu'r camau gweithredu. |
| 13. Tystiolaeth o angen ac effaith: astudiaethau achos, ystadegau, datblygu gwytnwch, pecynnau adnoddau datblygu, monitro canlyniadau, gwerth am arian, ystyried modelau ad-enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad<br>14. Ansawdd: cyfathrebu, is-adeiledd, cysylltiadau llyfn, cyflenwi a gwasanaeth, cyson a dibynadwy, hyfforddiant, diogel, moesegol, gweithio'n ddiogel mewn partneriaeth a chyd-weledigaeth, mapio gwasanaethau, rhoi llais i'r gymuned, ymgynghoriaeth ac ymglymiad.<br>15. Sicrhau adnoddau: cyllid, cyffredinolrwydd y ddarpariaeth a'r lle/lleoliadau/hybiau. |

16. Grymuso cymunedau i fod yn rhan o'r broses gynllunio, gweithrediad, dewisiadau positif a chael llais.
17. Nabod y gymuned, mannau dan do ac yn yr awyr agored a'u defnyddio a pheidio â cholli gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, grwpiau a phrofiadau defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a rhannu gweledigaeth.
18. Defnyddio pecyn adnoddau ymarfer da, adnoddau datblygu i ddangos bod y cymorth, partneriaethau ac ymgynghoriadau yn gweithio i ddatblygu gwytnwchac y caiff hyn ei fwydo'n ôl i'r cymunedau.
19. Is-adeiledd cadarn o ran cyllido (byrdymor ac ar wahân) DPA /mesurau, 'taro'r targed, methu'r targed'. Gyrru gan y targed yn hytrach na gan ganlyniad.
20. Adnoddau hygyrch ar gyfer holl ddefnyddwyr gwasanaeth: amser agor, staff (ddim yn tybio dibyniaeth ar wirfoddolwyr) sgiliau, hyfforddiant a chludiant.
21. Cyd-gynhyrchu: cadw'r gymuned /defnyddiwr gwasanaeth yn ymglymedig a gwrando ar eu barn, gan gynnwys mabwysiadu safon cytûn ar gyfer cymorth/sicrhau ansawdd i godi hyder yr 'atgyfeirydd'.
22. Gwybodaeth a chyfathrebu pa asedau (grwpiau ac adnoddau tir) sydd ar gael a sut gall pobl eu cyrchu (angen cynnwys grwpiau cymunedol bach iawn, ddim i gyd ar-lein.
23. Sut i sicrhau parhad y cyllido i alluogi cynllunio hirdymor a dibynadwyedd yn cynnig ac i osgoi dyblygu?
24. Gwell dealltwriaeth o 'r manteision ar gyfer grwpiau a sicrhau ansawdd (cymesur) y gweithgareddau/ sefydliadau yr ydyn ni'n eu cynnig i bobl ?
25. Mapio gwasanaethau: Sut gallwn ni ddatblygu bas data o sefydliadau y gall meddygon teulu eu cyrchu i atgyfeirio cleifion atyn nhw ar gyfer rhagnodi cymdeithasol? A'r cyhoedd.
26. Sut gallwn ni sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth priodol i gyrchu gwasanaethau?
27. Sut ydyn ni'n apelio i gyllidwyr i ddarparu cyllid hirdymor i ganiatáu i asedau/gwasanaethau fod yn gynaliadwy a pharhau yn hirach?
28. Sut ydyn ni'n cydbwyso goblygiadau diogelu ar un llaw tra ar y llaw arall peidio gadael i brosesau ffurfiol gyfyngu ar grwpiau llai eu maint/anffurfiol?
29. Modelau heb ddiffygion– yn tynnu o ddatblygiad organig cymunedau a sut i hwyluso'r broses? Ystyried y syniad o 'angen' a'i gymhlethdodau.
30. Y broses o addysgu Meddygon Teulu am asedau cymunedol. Yn aml, synau positif am ragnodi cymdeithasol ond ddim yn trosi hyn yn atgyfeiriadau.

### Tabl 4. Y 'papur glas': lawr i 4 grŵp

1. **Cyllido:**
   - Cynaliadwy
   - Hir-dymor
   - Llai cyfyngedig o ran cysondeb
2. **Cyfathrebu a hygyrchedd asedau:**
   - Mapio
   - Ymwybyddiaeth
   - Cludiant
3. **Gwerthuso:**
   - Cyson a realistig ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaeth
   - Mwy ansoddol nid yn ymwneud â rhifau yn unig
4. **Cyllido:**
   - Dull di-dor o fynd ati
   - Ymwybyddiaeth a chyfathrebu
   - Gostwng cystadleuaeth
   - Hyblygrwydd
   - Parhad a dibynadwyedd
     - Newid i gael ei yrru gan ganlyniad yn hytrach nag allbwn
     - Gwerthfawrogi gwirfoddoli
5. **Cyfathrebu gwybodaeth ac argaeledd asedau:**
   - Y gallu gan holl ddefnyddwyr i gyrchu
   - Cludiant ac amseriad
   - Deall yr hyn sydd ar gael
   - Rôl technoleg (e.e. Elemental) ar gyfer darpariaeth a gwerthuso
6. **Cyd-gynhyrchu ac ymglymiad:**

- Cymuned i nodi ei hanghenion a'i hasedau
- Sicrhau ansawdd
- Hyder ymhlith grwpiau a phriodoldeb atgyfeirio

7. **Tystiolaeth o angen ac effaith:**
   - Astudiaethau achos
   - Ystadegau
   - Datblygu gwytnwch
   - Pecynnau adnoddau ar y pellter a deithiwyd.
   - Monitro canlyniadau,
   - Gwerth am arian,
   - Ystyried modelau o adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad
8. **Ansawdd:**
   - Cyfathrebu,
   - Is-adeiledd,
   - Cysylltiadau llyfn,
   - Cyflenwi a gwasanaethau
   - Cyson a dibynadwy
   - Hyfforddiant
   - Diogel, moesegol
   - Gweithio effeithiol mewn partneriaeth
   - Cyd-weledigaeth
   - Gwasanaethau mapio,
   - Rhoi llais i'r gymuned
   - Ymgynghoriad ac ymglymiad
9. **Sicrhau adnoddau**
   - Cyllido
   - Cyffredinolrwydd y ddarpariaeth
   - Lle/lleoliadau /hybiau
10. **Pa rwystrau sydd rhag sicrhau cyfathrebu effeithiol a bod 'prynu i mewn' rhwng a gyda phob parti perthnasol? Meddygon – gweithiwr cyswllt – asedau cymunedol – asedau cymunedol rhwng ei gilydd.**
11. **Ystyried effeithiolrwydd a llwyddiant yr hyn sydd eisoes yn bodoli a'r angen i sicrhau nad oes dyblygu. Beth ydy arferion da?**
12. **Creu galluedd cynaliadwy o fewn adnoddau sydd eisoes yn bodoli:**
    - **Cydweithrediad**
    - **Partneriaeth**
    - **Cyd-gynhyrchu**

## Tabl 5. Y 'papur gwyn ': 2 grŵp mawr

**Grŵp 1:**

1. **Systemau:**
   - Sicrhau ansawdd
   - Mapio: beth sydd ar gael a'r bylchau
   - Cysylltiadau ar draws sectorau
   - Galluogi grwpiau llai i fod yn rhan o'r system; cyfoeth y wybodaeth
   - Holl randdeiliaid sy'n dylanwadu ar strwythur y cyllido
   - Rhoi llais i unigolion
   - Comisiynu trugarog
   - Angen i gysylltiadau grym wrth gyd-gynhyrchu fod yn gydradd
   - Hyblygrwydd: cymorth ar gyfer newid hinsawdd, datblygiad a llyfnder prosiect
2. **Ansawdd:**
   - Gwahanol lefelau o sicrhau ansawdd
   - Diogelwch
   - Gwerthuso effaith ar daith unigolyn (y gwahaniaeth rhwng iechyd a llesiant)
   - Sut mae pob rhan yn bwydo i mewn i'r system

- Ymgynghoriad
- Person-ganolog

**3. Lledaenu a rhannu gwybodaeth**


- Technoleg: rhannu data
- Cyd-werthoedd a iaith a rennir
- Cymryd y dysgu o hybiau cymunedol
- Llai o ddyblygu
- Cyfathrebu effeithiol ar draws lefelau

**Grŵp 2 :**

1. **Sut ydyn ni'n deall y broses o addysgu a chyfathrebu gyda Meddygon Teulu, grwpiau ac eraill am asedau cymunedol a throsi'r broses hon yn atgyfeiriadau, gwasanaethau mapio ayb yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu?**
2. **Sut ydyn ni'n dangos tystiolaeth o gynaliadwyedd, gan gydnabod bod syniadau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn anghyson a bod nifer o wahanol fathau o asedau cymunedol (e.e. ffurfiol ac anffurfiol) a gwahanol 'lwybrau/teithiau' i gynaliadwyedd?**
3. **Angen is-adeiledd i sefydlu mecanweithiau ar gyfer cynllunio a chomisiynu yn y maes hwn. Sicrhau ymglymiad yn y cam gweithredu o ystyried yr adnoddau sydd gennym.**

## Model Cymru

## Opsiwn A a gynigir



# Model B a gynigir (person-ganolog)

